Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i:**
**Ymgynghoriad y ddyletwsydd diog**
Yn cau 02 Gorffennaf 2021
Ymateb a gyflwynwyd ar-lein

## Cwestiynau

### Adran 1: I BWY (NEU BLE) Y DYLAI DEDDFWRIAETH FOD YN BERTHNASOL?

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad dilynol:**

1. **Dylai lleoliadau a sefydliadau sy'n berchen ar, yn gweithredu neu'n gyfrifol am leoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd baratoi eu staff i ymateb yn briodol pe byddai ymosodiad terfysgol i amddiffyn eu hunain ac unrhyw aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol**
   Anghytuno'n Gryf (SD)
   Anghytuno (D)
   Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (NAND)
   **Cytuno (A)**
   Cytuno'n Gryf (SA)

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad dilynol:**

2. **Dylai lleoliadau a sefydliadau sy'n berchen ar, yn gweithredu neu'n gyfrifol am leoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd baratoi eu staff i ymateb yn briodol pe byddai ymosodiad terfysgol er mwyn amddiffyn eu hunain ac unrhyw aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol orau**
   Anghytuno'n Gryf (SD)
   Anghytuno (D)
   Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (NAND)
   **Cytuno** (A)
   Cytuno'n Gryf (SA)

3. **Rydym yn cynnig y bydd Dyletswydd Diogelu sydd wedi'i thargedu yn berthnasol i leoliadau cyhoeddus penodol yn unig. Pa feini prawf fyddai'n penderfynu orau pa leoliadau y dylai Dyletswydd fod yn berthnasol iddynt?**

   **a. Capasiti (fel y'i defnyddir ar hyn o bryd yn y Rheoliadau Diogelwch Tân)**
   b. Refeniw blynyddol
   c. Lefelau staffio
   d. Arall

   [Lle mai 3 yw a]

4. **Rydym wedi cynnig capasiti I leoliad o 100 o bobl neu fwy fel trothwy. Pa lefel capasiti ydych yn credu a fyddai'n briodol i'w phennu ar gyfer lleoliadau yng nghwmpas y Ddyletswydd Diogelu ar gyfer y maen prawf hwn?**

Er ein bod, mewn egwyddor, yn cytuno â’r trothwy 100 o bobl, credwn y dylai fod yn hyblyg oherwydd gall rhai lleoliadau neu ddigwyddiadau fod yn fwy o darged, beth bynnag fo’r capasiti. Felly, dylid cael rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn caniatáu i ddylanwadau eraill arwain at wneud y Ddyletswydd yn berthnasol.

[Lle mai 3 yw b-d]

5. **Pa drothwy fyddech chi'n cynnig ei gynnwys yng nghwmpas y Ddyletswydd Diogelu ar gyfer y maen prawf hwn?**
   N/A

6. **Rydym yn cynnig y dylai gofyniad i ystyried diogelwch a gweithredu mesurau lliniaru priodol mewn lleoliad fod yn gyfrifoldeb i berchennog a/neu weithredwr y lleoliad. Ydych chi'n ystyried bod hyn yn briodol?**
   Y/**N**

[Os yw 6 = N]

7. **Os na, pam lai:**
   Ystyriwn nad yw ateb cadarnhaol neu negyddol syml o gymorth yma. Cytunwn mewn egwyddor y dylai bod gofyniad i berchennog a / neu weithredwr y lleoliad ystyried a gweithredu mesurau lliniaru priodol. Fodd bynnag, mae angen cyfle hefyd i ymgysylltu a chael adborth gan wasanaethau statudol. Un feirniadaeth ynglŷn â’r ymosodiad ar Arena Manceinion oedd bod y trefniadau diogelwch yn fater mewnol nad oedd wedi ei rannu â chyrff statudol megis y gwasanaeth ambiwlans a’r gwasanaeth tân ac achub.

8. **Rydym yn cynnig, lle mae cyfrifoldeb sefydliadol a rennir ar gyfer lleoliad, neu sefydliadau lluosog sy'n gweithredu mewn lleoliad sydd o fewn y cwmpas, y byddai'n rhaid i'r partïon weithio gyda'i gilydd i ddiwallu'r gofynion. Ydych chi'n ystyried bod hyn yn briodol?**
   **Y**/N

[Os yw 8 = N]

9. **Os na, pam lai:**
   N/A

10. **Rydym yn cynnig y byddai Dyletswydd Diogelu hefyd yn berthnasol i sefydliadau penodol sy'n gweithredu mewn lleoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Pe byddai maint sefydliad yn faen prawf ar gyfer ei gynnwys yng nghwmpas y Ddyletswydd, beth fyddai trothwy priodol?**
    a. Pob sefydliad
    b. Micro (1-9 o gyflogeion)
    c. Bach (10-49 o gyflogeion)
    d. Canolig (50-249 o gyflogeion)
    **e. Mawr (250+ o gyflogeion)**
    f. Arall

[Wedi'i gysylltu â C10)

11. **Beth yw eich rhesymeg dros yr ateb hwn?**
Mae posibilrwydd y bydd y Ddyletswydd yn rhoi baich mawr ar y cyrff statudol sydd eisoes yn gweithredu ar derfynau eu gallu neu'n agos at hynny. Mae yna eisoes lawer o gyflogwyr mwy y mae angen arnynt i roi mesurau diogelwch ar waith o ganlyniad i natur eu busnes. Nid yw'n glir o'r cwestiwn a oes rhaid i'r holl weithwyr fod wedi eu lleoli yn yr adeilad neu dros nifer o leoliadau. Os yw'n nifer o leoliadau yna byddai'n rhaid i bobwyr, er enghraifft, sydd â sawl safle roi'r mesurau ar waith, gan ychwanegu at faich gwirio cydymffurfiaeth.

12. **Rydym wedi cynnig y byddai Dyletswydd Diogelu yn berthnasol i sefydliadau sydd â 250 neu fwy o gyflogeion. A yw'n glir a yw'ch sefydliad yn dod o fewn y meini prawf hyn?**
Y/**N**

[Os yw 12 = N]

13. **Os na, pam lai?**
Fel Rhwydwaith mae gennym lawer o aelodau, a bydd rhai ohonynt o fewn y meini prawf. Fodd bynnag, fel y gwelir yn yr ateb i 11, nid yw bob amser mor bendant, ac mae angen bod yn glir a yw gweithwyr wedi eu lleoli ar safle neu mewn adeilad penodol, neu fod nifer o weithwyr a allai fod yn gweithio gartref neu mewn ystod o adeiladau neu leoliadau yng Nghymru neu ledled y DU yn ehangach.

14. **A ydych yn glir a yw eich sefydliad yn dod o fewn cwmpas y diffiniad o 'leoliad sy'n hygyrch i'r cyhoedd' (lleoliad y mae gan y cyhoedd neu unrhyw ran o'r cyhoedd fynediad iddo, trwy dalu neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd pendant neu ymhlyg)?**
Y/**N**

[os yw 14 yn N]

15. **Os na, pam lai?**
Lleolir rhai aelodau'r Rhwydwaith mewn lleoliadau neu ganolbwyntiau lle gall y cyhoedd gael mynediad i ardal y dderbynfa neu i ran fach o'r adeilad (fel arfer yn y tu blaen), ac mae llai na 250 o weithwyr wedi eu lleoli yno. Nid yw'n glir, felly, a fydd y lleoliadau hyn, fel Corff Cyhoeddus, yn cael eu cynnwys yn y ddyletswydd ai peidio.

16. **Gan gyfeirio at Atodiad 1, a ydych chi'n ystyried y dylid cael esemptiadau eraill rhag Dyletswydd Diogelu?**
Y/**N**

[os yw 16 yn Y]

17. **Os felly beth neu pwy a pham?**
N/A

**18. A oes unrhyw faterion eraill ynghylch i pwy y dylai deddfwriaeth fod yn berthnasol yr hoffech gynnig barn arnynt?**

Mae llawer o leoedd a all ddal 100 o bobl – bydd yn cynnwys llawer o sefydliadau, adeiladau a lleoliadau. Mae rhybuddion digwyddiad dros dro yn debygol o fod dros y trothwy, felly mae angen ystyried sut y bydd y rheiny'n cael eu rheoli a'u lliniaru gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn ddigwyddiadau untro sydd, o bosibl, yn ymwneud â'r rheiny y mae angen arnynt i gynnal yr asesiad unwaith yn unig. Gall Parciau Cenedlaethol gwmpasu ardal ddaearyddol eang a bydd teithiau cerdded ac ati yn cael eu trefnu yno yn cynnwys niferoedd amrywiol o bobl. Sut y gweithredir hyn pan allai fod mwy na 100 o bobl o nifer o sefydliadau fod yn yr un lle trwy ddamwain, er enghraifft yr Wyddfa neu Ben y Fan?

**Adran 2: BETH DDYLAI'R GOFYNION FOD?**

**19. A yw'ch sefydliad ar hyn o bryd yn cynnal asesiad risg ar gyfer terfysgaeth?**

**Y**/N

**[Wedi'i gysylltu â Chwestiwn 19]**

**20. A yw'r broses hon yn cael ei chyflawni gan unigolyn mewnol neu unigolyn a benodir yn allanol?**

**Mewnol**/Allanol

**[Lle mai 19 = Y]**

**21. Pan fyddwch yn cynnal asesiad o risg terfysgaeth, sawl diwrnod gwaith ydych yn amcangyfrif bod eich sefydliad yn eu treulio ar y dasg hon fel rheol? (Lle mae nifer o staff yn ymgymryd â hyn, cofiwch gynnwys cyfanswm y diwrnodau a dreulir gan yr holl staff)?**

Mae hyn yn amhosibl i ni ei amcangyfrif, gan fod yr ymateb hwn ar ran Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, sy'n cynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a Phartneriaid eraill sy'n ymwneud â Diogelwch Cymunedol. Felly, tra bod y cyfan yn cynnal asesiadau risg yn ymwneud â therfysgaeth ar hyn o bryd, mae gan bob un ei systemau, strwythurau a phrosesau ei hun sy'n golygu ei bod yn amhosibl amcangyfrif yr amser a dreulir.

**22. Pa mor aml y mae eich sefydliad fel arfer yn adolygu'r asesiad risg hwn?**

a. Sawl gwaith y flwyddyn
b. Tuag unwaith y flwyddyn
c. Tuag unwaith bob 2 flynedd
d. Tuag unwaith bob 3 blynedd neu fwy
**e. Arall (nodwch)-** Amrywiol o ganlyniad i'r ystod o leoliadau, ac ati, y mae aelodau'r Rhwydwaith yn gyfrifol amdanynt.

**23. Pa fesurau lliniaru yn erbyn risgiau terfysgaeth y mae eich sefydliad yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd (dewiswch bob un sy'n berthnasol)?**

**a. Protocolau a gweithdrefnau diogelwch sefydliadol sydd wedi'u diffinio'n dda, gan gynnwys ymateb i ymosodiad terfysgol**

**b. Mae mesurau ar waith i nodi ac amharu ar ragchwilio gelyniaethus**
**c. Gweithio i sicrhau bod ymddygiadau diogelwch yn cael eu mabwysiadu gan y gweithlu**
**d. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelwch personél yn ystyried risgiau diogelwch**
**e. Ystyrir gwendidau safle/lleoliad (i fygythiadau terfysgol) a mesurau lliniaru ffisegol priodol**
**f. Mae gweithdrefnau gwacáu, symud i le mewnol diogel, cloi i lawr ar waith ac mae staff yn eu deall a'u harfer**
**g. Gwneir hyfforddiant staff i godi ymwybyddiaeth o'r bygythiad a beth i'w wneud**
**h. Mae gweithdrefnau neu ap parhad busnes (e.e. ap ACT) yn cynnwys gwybodaeth ar sut i ymateb i ymosodiadau**
**i. Cydgysylltu â'r heddlu neu adnoddau eraill (e.e. ymgynghorydd diogelwch) ar fygythiadau a mesurau diogelwch priodol**
**j. Cymryd rhan mewn mentrau diogelwch lleol**
**k. Arall-** Mae'r lleill i gyd yn berthnasol i aelodau o ganlyniad i natur y sefydliadau.

**24. Faint o arian y mae eich sefydliad fel arfer yn ei wario ar fesurau diogelwch newydd neu ddiwygiedig a fyddai'n lliniaru yn erbyn risgiau terfysgol mewn un flwyddyn ariannol?**

Mae hyn yn amhosibl i ni ei ddarparu, gan fod yr ymateb hwn ar ran Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, sy'n cynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a Phartneriaid eraill sy'n ymwneud â Diogelwch Cymunedol. Felly, tra bod y cyfan yn rhoi mesurau lliniaru yn erbyn risgiau terfysgol ar waith, mae gan bob un ei systemau, strwythurau a phrosesau ei hun sy'n golygu ei bod yn amhosibl rhoi amcangyfrif o gostau mewn blwyddyn ariannol.

**25. Beth yw'r gweithgareddau a'r mecanweithiau presennol yr ydych yn ystyried sy'n arwain at y canlyniadau diogelwch amddiffynnol a pharodrwydd sefydliadol gorau mewn mannau cyhoeddus (dewiswch bob un sy'n berthnasol)?**

**a. Ymgyrchoedd cyfathrebu e.e. Action Counters Terrorism (ACT) a See It, Say It, Sorted**
**b. Cyrsiau codi ymwybyddiaeth a hyfforddi i staff**
**c. Cynhyrchion ac offer ar gyfer cyngor a chanllawiau**
**d. Mecanweithiau a phrosesau awdurdodau lleol**
**e. Arall:** Gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth, ynghyd â chydlyniant cymunedol a bod yn hawdd i ystod eang o aelodau'r gymuned ac aelodau o'r cyhoedd fynd atoch.

**26. Beth yw'r swyddogaethau presennol ar gyfer awdurdodau lleol sydd ar hyn o bryd yn arwain at y canlyniadau diogelwch amddiffynnol a pharodrwydd sefydliadol gorau mewn mannau cyhoeddus (dewiswch bob un sy'n berthnasol)?**

**a. CONTEST a Byrddau Diogelu**
**b. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol**
**c. Trwyddedu ar gyfer diogelwch meysydd chwaraeon**
**d. Prosesau cynllunio**
**e. Fforymau Gwydnwch Lleol**
**f. Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch (ar gyfer digwyddiadau)**
g. Ardaloedd Gwella Busnes (y gellir eu sefydlu gan Awdurdodau Lleol, busnesau neu unigolion er budd busnesau lleol)
**h. Pwyllgorau Trwyddedu (ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol, darparu adloniant a lluniaeth yn hwyr y nos)**
**i. Prosesau Iechyd a Diogelwch, diogelwch tân a rheoli adeiladau.**
**j. Arall:** Mae'r uchod i gyd, bron, yn bwysig, ynghyd â Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau. Mae'r angen i gydlynu ar lefel weithredol ac ar lefel strategol yn hanfodol. Mae'n aneglur lle mae systemau Llywodraeth Cymru yn ffitio i hyn, e.e. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a Byrddau Diogelu. Yn arwyddocaol, mae Contest Cymru eisoes wedi ceisio cyflwyno Grwpiau Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd yng Nghymru o fewn strwythur llywodraethu newydd. Nod Grwpiau Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd yw gweithio ar y cyd i ddarparu trefniadau diogelwch amddiffynnol effeithiol ac effeithlon. Mae nifer o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru eisoes wedi dechrau sefydlu Grwpiau Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd, a fydd yn adrodd i fyrddau Contest rhanbarthol.

**27. Beth yw'r swyddogaethau presennol ar gyfer awdurdod lleol sydd â'r potensial i arwain at y canlyniadau diogelwch amddiffynnol a pharodrwydd sefydliadol gorau mewn mannau cyhoeddus (dewiswch bob un sy'n berthnasol)?**

**a. CONTEST a Byrddau Diogelu**
**b. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol**
c. Trwyddedu ar gyfer diogelwch meysydd chwaraeon
**d. Prosesau cynllunio**
e. Fforymau Gwydnwch Lleol
**f. Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch (ar gyfer digwyddiadau)**
g. Ardaloedd Gwella Busnes (y gellir eu sefydlu gan Awdurdodau Lleol, busnesau neu unigolion er budd busnesau lleol)
h. Pwyllgorau Trwyddedu (ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol, darparu adloniant a lluniaeth yn hwyr y nos)
i. Prosesau Iechyd a Diogelwch, diogelwch tân a rheoli adeiladau.
j. **Arall -** Mae Contest Cymru eisoes wedi ceisio cyflwyno Grwpiau Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd yng Nghymru o fewn strwythur llywodraethu newydd. Bydd Grwpiau Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd yn gweithio ar y cyd i ddarparu trefniadau diogelwch amddiffynnol effeithiol ac effeithlon. Mae nifer o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru eisoes wedi dechrau sefydlu Grwpiau Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd, a fydd yn adrodd i

fyrddau Contest rhanbarthol. Mae’n rhy gynnar i ddweud a fydd pob awdurdod lleol yn mabwysiadu model Grwpiau Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd ynteu’n defnyddio strwythurau partneriaeth presennol. Mae’n rhaid sefydlu cysylltiadau â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol neu strwythurau partneriaeth eraill (fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus), ac mae cydlynu ar lefel weithredol ac ar lefel strategol yn hanfodol.

**[Wedi’i gysylltu â Chwestiwn 27]**

**28. Ar gyfer yr opsiwn/au o'ch dewis, beth fyddai'n ofynnol i wella neu gefnogi hyn/y rhain i sicrhau canlyniadau diogelwch mwy effeithiol?**

Mwy o adnoddau fel staff – ar gyfer rolau allweddol fel gweinyddu, cydlynydd, ymgynghorydd a swyddog cydymffurfiaeth. Yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer cyfathrebu a hyfforddiant. Mae’r hyn a ddarperir ar hyn o bryd eisoes mor effeithlon â phosibl, ac mae’n gweithredu ar derfynau ei allu, neu’n agos at hynny. Mae’r cynnydd posibl mewn angen sy’n gysylltiedig â’r ddyletswydd yn peri pryder. Bydd angen cyllid ac adnoddau ychwanegol i gyflawni’r ddyletswydd ochr yn ochr â holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill diogelwch cymunedol a lliniaru unrhyw risgiau.

**29. Sut y gallai sefydliadau sy'n gweithio mewn mannau cyhoeddus gael eu hannog neu eu gorfodi i ymgysylltu â sefydliadau partner (e.e. yr heddlu) i sicrhau bod gwell dealltwriaeth o fygythiad terfysgol, rheoli risg a mesurau lliniaru?**

Mae yna gyfle i’r asesiadau risg gael eu cynnal yn rhan o brosesau dros dro’r digwyddiadau, gan fod y prosesau hyn eisoes yn golygu bod gan ran o’r sefydliadau partner gyfle i ymateb – dylai hyn gynyddu ymgysylltiad.

**30. Beth yw eich barn ar ofyniad deddfwriaethol posibl i awdurdodau lleol (ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol megis Asiantaethau Priffyrdd) a phartneriaid lleol perthnasol eraill ddatblygu cynllun strategol i frwydro yn erbyn terfysgaeth, er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd, trwy weithio mewn partneriaeth?**

Mae gofynion eisoes ar awdurdodau lleol i weithio gyda phartneriaid eraill drwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu cynlluniau strategol wedi eu llywio gan asesiadau i gefnogi lles a diogelwch cymunedau. Yr ydym hefyd wedi diwygio Strwythurau Llywodraethu Contest a Diogelu yng Nghymru. Byddai cryfhau’r cysylltiadau rhwng y partneriaethau yn caniatáu cyfrifoldeb a dealltwriaeth ehangach ar y lefelau uchaf. Fodd bynnag, mae angen hyblygrwydd er mwyn i’r risgiau a materion lleol gael eu nodi, gan fod pob ardal awdurdod lleol yn debygol o fod â risgiau gwahanol, a gwahanol ardaloedd o fewn yr ardal awdurdod lleol hyd yn oed.

**[Wedi'i gysylltu â Chwestiwn 30]**

**31. Beth yn eich barn chi fyddai cydrannau allweddol darpariaeth ddeddfwriaethol o'r fath a chanllawiau cysylltiedig?**

Fel y crybwyllwyd yng nghwestiwn 30, hyblygrwydd i ymateb i anghenion, heriau a chyfleoedd lleol. Byddai angen ystyried cyd-destun deddfwriaethol Cymru oherwydd mae nifer o elfennau wedi eu datganoli a gall arwain at amrywiadau rhwng y cyflwyniad a'r dull yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU.

**[Wedi'i gysylltu â Chwestiwn 30]**

**32. Pa sefydliad/au a allai chwarae rhan flaenllaw wrth ddod â phartneriaethau o'r fath ynghyd a'u cynull?**

Defnyddio'r strwythurau presennol yng Nghymru sy'n cynnwys yr awdurdodau lleol, yr heddlu, comisiynwyr yr heddlu a throsedd, iechyd, tân a diogelwch a'r trydydd sector. Gallai fod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae ledled Cymru gyfan wrth atgyfnerthu'r ddyletswydd a hyrwyddo cyfranogiad. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo gydag ymgysylltu â'r sectorau busnes, hamdden, twristiaeth a lletygarwch, yn ogystal â chyrff allweddol fel awdurdodau parciau cenedlaethol.

**[Wedi'i gysylltu â Chwestiwn 30]**

**33. Pa ofynion i wella diogelwch a pharodrwydd amddiffynnol y gallai partneriaethau o'r fath eu cyflawni'n realistig?**

Rhannu'n well, defnyddio trefniadau llywodraethu presennol yn hytrach nag ychwanegu atynt a lleihau amser ar gyfer camau gweithredu rhwng cyfarfodydd. Gwell cysylltiadau rhwng partneriaid, ond hefyd â rhaglenni eraill fel cydlyniant cymunedol, a ddylai fod yn rhan o'r mesurau lliniaru risg. Ar ben hynny, gallai cyllid ar gyfer cydlynwyr partneriaeth fod o gymorth gyda sbarduno'r gweithgarwch sy'n ymwneud â chynllunio, hyfforddi a chyfathrebu. Mae yna awydd i gael mwy o bobl sy'n fodlon gweithredu i gynorthwyo gyda gweithio mewn partneriaeth, yn hytrach na phobl sy'n cynghori'n unig.

**34. A oes gennych unrhyw gynigion ychwanegol i'w cyflwyno a allai wella diogelwch mewn mannau cyhoeddus?**

Yn unol ag argymhellion adroddiad Ymchwiliad Arena Manceinion, byddai'n werth ystyried rhoi Dyletswydd Diogelu ar eraill nad oes ganddynt fuddiant cyfreithiol yn yr eiddo ond mae ganddynt gyfrifoldeb dros ddiogelwch, fel y rheiny sy'n gyfrifol am reoli'r dorf a diogelwch.

**35. Lle mae gofyniad deddfwriaethol ar gyfer diogelwch (e.e. mewn rhai meysydd chwaraeon a safleoedd trafnidiaeth, neu yn y dyfodol y sefydliadau a'r lleoliadau hynny sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Diogelu), a yw'n rhesymol ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau perthnasol (er enghraifft y rhai sy'n amgylchynu'r safle) weithio mewn partneriaeth i gyflawni canlyniadau diogelwch?**

"Deciding who has a Protect-Duty in relation to a shared space, what the extent of each duty is and how the duty is going to be fulfilled by the different parties will be difficult" – Ymchwiliad Arena Manceinion. Gallai gynnwys llawer o bartïon ychwanegol na fyddent, o bosibl, fel arall yn rhwym i'r Ddyletswydd, gan arwain at

waith ychwanegol i bartneriaid. Gallai beri i ddeiliadaethau bychain beidio â sefydlu mewn lleoliad agos, gan arwain at adeiladau gweigion sydd â risg ychwanegol. Dylent gydweithio lle bo’n bosibl, ond gallai fod yn heriol os oes angen ei gyflawni sawl gwaith yn dibynnu ar ddefnydd lleoliad.

**36. Lle mae canllawiau diogelwch y Llywodraeth ar hyn o bryd (e.e. gweithredwyr bysiau a choetsys a phorthladdoedd masnachol a llongau â baner y DU) a fyddai’n briodol i’r canllawiau hyn ddod yn ganllawiau deddfwriaethol o dan y Ddyletswydd Diogelu i sicrhau mwy o sicrwydd ar ystyriaethau a chanlyniadau diogelwch?**

Ymddengys y byddai hyn yn briodol oherwydd mewn sawl achos mae eisoes yn cael ei gyflawni, ac felly ni ddylai fod yn cynyddu’r llwyth gwaith yn ormodol.

**37. Lle mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau diogelwch (e.e. gweithredwyr bysiau a choetsys a phorthladdoedd masnachol a llongau â baneri yn y DU) neu wedi rhoi cynlluniau gwirfoddol ar waith ar gyfer cynhyrchion y gellid eu defnyddio fel arfau, a fyddai'n rhesymol i fusnesau a gweithredwyr eraill sy'n gyfrifol gael eu gorfodi i ddilyn y canllawiau hynny o dan Ddyletswydd Diogelu?**

Ymddengys y byddai hyn yn briodol oherwydd mewn sawl achos mae eisoes yn cael ei gyflawni, ac felly ni ddylai fod yn cynyddu’r llwyth gwaith yn ormodol.

**I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad dilynol:**

**38. Byddai cydymffurfio â Dyletswydd Diogelu'n galw am fwy o ymdrech (e.e. amser, adnodd staff) na chydymffurfio ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol a rhwymedigaethau eraill tebyg? (e.e. diogelwch tân, iechyd a diogelwch, canllawiau Deddf Trwyddedu 2003, trwyddedu ar gyfer meysydd chwaraeon, Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch)?**

Anghytuno'n Gryf (SD)
Anghytuno (D)
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (NAND)
Cytuno (A)
**Cytuno'n Gryf** (SA)

**39. Sut ydych chi'n credu y bydd y gofynion/mesurau lliniaru newydd hyn yn effeithio ar:**

a. Nifer y cwsmeriaid/ymwelwyr sy'n ymweld â lleoliadau yng nghwmpas y ddyletswydd
(**dim o gwbl**, cynyddu, gostwng)
b. Canfyddiad y cyhoedd o'r bygythiad terfysgol
(dim o gwbl, **cynyddu**, gostwng)
c. Gwyliadwriaeth y gweithlu/defnydd o ymddygiadau diogelwch da gan staff
(dim o gwbl, **cynyddu**, gostwng)

**40. Mae Atodiad 3 yn nodi costau a buddion disgwyliedig ymyrraeth ar ffurf Dyletswydd Diogelu. Darparwch sylwadau ar yr Atodiad hwn.**
Er bod y tabl yn darparu costau a buddion o ran canlyniadau posibl, nid ymddengys ei fod yn cynnwys y costau ariannol ychwanegol sy'n debygol o fod. Nid yw chwaith yn nodi mantais atal eilaidd sy'n debygol o ddigwydd oherwydd y diogelwch a'r arsylwi ychwanegol a wneir; er enghraifft, llai o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu droseddau eraill.

**41. A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r hyny dylai fod yn ofynnol i bartïon o fewn cwmpas Dyletswydd Diogelu ei wneud yr hoffech gynnig barn arnynt?**
Mae pryder ynglŷn â'r gallu a'r adnoddau y bydd eu hangen i gyflawni hyn, a lle bydd yn cael ei osod ymysg gofynion deddfwriaeth a chanllawiau eraill. Mae cyfyngiad ar nifer y cyfarfodydd partneriaeth y gall pobl fod yn bresennol a chymryd rhan ystyrlon ynddynt – dyma pam mae defnyddio strwythurau presennol mor bwysig yn hytrach na datblygu rhai ychwanegol a rhoi mwy o bwysau ar bartneriaid.

## Adran 3: SUT DDYLAI CYDYMFFURFIO WEITHIO?

**42. Beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio cyfundrefn arolygu i gefnogi gwelliannau i ddiwylliant ac arferion diogelwch?**
Cysondeb a sicrhau y darperir yr un ansawdd i atal loteri cod post. Mae'n rhaid i'r gyfundrefn weithio mewn partneriaeth â'r strwythurau eraill sy'n darparu trefniadau arolygu a diogelwch. Os yw'n gweithio'n annibynnol, mae mwy o risg o fylchau neu ddyblygu. Mae yna hefyd bosibilrwydd gwirioneddol y bydd pobl yn cysylltu â'r rheiny y maent yn eu hadnabod yn y cyfundrefnau arolygu presennol, ac felly gall fod yn well cynyddu gallu yn y rheiny yn hytrach na datblygu rhywbeth newydd.

**43. Beth yw eich barn ar ddefnyddio cosbau sifil (dirwyon) ar gyfer sefydliadau sy'n methu'n gyson â chymryd camau rhesymol i leihau effaith bosibl ymosodiadau sy'n gysylltiedig â sicrhau cydymffurfedd â Dyletswydd Diogelu?**
Er bod dirwyon yn gallu gweithredu fel rhybudd, os oes angen cydymffurfiaeth ar gyfer trwyddedu ac ar gyfer trwyddedau digwyddiadau dros dro, yna byddai peidio â chydymffurfio yn arwain at gau neu atal y digwyddiad rhag cael ei gynnal. Mae hyn yn debygol o fod yn fwy o ataliad a sicrhau mwy o gydymffurfiaeth.

**44. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â sut y gallai trefn gydymffurfio (arolygu a gorfodi) weithredu?**
Mae pryder y bydd angen i'r rheiny sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol a neu dimau eraill yr awdurdod lleol fod yn orfodwyr a darparu hefyd mewn perthynas â mannau cyhoeddus gyda chynifer o wahanol ddewisiadau ar gael. Mae'n anodd asesu'r effaith tan y gwyddys pwy fydd yn arwain ar gydymffurfiaeth. Felly, mae angen am fwy o ymgynghori pan fydd y model wedi ei ddatblygu ymhellach.

## Adran 4: SUT DDYLAI'R LLYWODRAETH GEFNOGI A GWEITHIO GYDA PERTNERIAID AM Y GORAU?

**45. A ydych yn cyrchu cyngor y Llywodraeth ar hyn o bryd (yn bennaf gan Blismona CT a'r Ganolfan Diogelu Seilwaith Genedlaethol) ynghylch bygythiad, diogelwch amddiffynnol a pharodrwydd?**
**Y**/N

**[Os yw 45 = Y]**

**46. Beth, os unrhyw beth, sydd fwyaf gwerthfawr yn eich cyngor a chanllawiau cyfredol?**
Ystyriwn fod gwybodaeth sy'n hawdd ei deall ynglŷn â methodolegau bygythiad ac ymosod yn agwedd bwysig ar gyngor ac arweiniad cyfredol i sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn gweithredu i wrthsefyll terfysgaeth. Er enghraifft, y rhaglen hyfforddiant e-ddysgu am ymwybyddiaeth sydd ar gael yn rhwydd. Er mwyn cynyddu effaith hyfforddiant ar-lein ac ymwybyddiaeth gymaint â phosibl, mae mynediad at Gynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth hefyd yn agwedd werthfawr ar gyngor ac arweiniad cyfredol.

**[Os yw 45 = N]**

**47. Pam nad ydych yn cyrchu'r cyngor a chanllawiau hyn ar hyn o bryd?**
a. Nid oeddwn yn gwybod eu bod yn bodoli
b. Nid wyf yn credu bod angen i mi fynd i'r afael â'r bygythiad
c. Nid oes gennyf yr amser i gyrchu hyn
d. Mae'n rhy ddryslyd canfod yr hyn yr wyf am ei gael
e. Arall

**48. Beth fyddai fwyaf defnyddiol i chi i'ch helpu i gydymffurfio â Dyletswydd Diogelu (dewiswch bob un sy'n berthnasol)?**
**a. Gwasanaeth digidol sengl lle gallech gyrchu deunydd, cyngor a hyfforddiant perthnasol mewn un lle**
**b. Gwybodaeth hawdd ei hamgyffred am fygythiad a methodolegau ymosod**
**c. Templed asesiad risg**
**d. Gwybodaeth am gynnal asesiad risg ar gyfer bygythiadau terfysgaeth**
**e. Cyngor yn ymwneud â mesurau lliniaru diogelwch amddiffynnol**
**f. Cyngor yn ymwneud â diogelwch personél a phobl**
**g. Cyngor yn ymwneud â sut y gall sefydliad baratoi ar gyfer ymosodiad terfysgol**
**h. Cyngor ar yr hyn sy'n golygu lliniaru rhesymol ymarferol a phriodol sy'n briodol i'm hamgylchiadau**
**i. Datblygu ardystiadau neu safonau cynnyrch ar gyfer agweddau ar yr ymagwedd**
**j. Cyrsiau hyfforddi ac ymwybyddiaeth i staff**
**k. Cynhyrchion e-ddysgu**
**l. Ap**
**m. Cyfarfod sector lle gallaf siarad am y Ddyletswydd ag arbenigwyr a sefydliadau tebyg eraill**

**n. Cyfarfod lleol lle gallaf siarad am y Ddyletswydd ag arbenigwyr a sefydliadau tebyg eraill**
**o. Arall:** Gwybodaeth glir, heb jargon. Gwybodaeth yn y Gymraeg.

**49. Mae Plismona Gwrthderfysgaeth yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r Sector Preifat i ddylunio gwasanaeth digidol i ddarparu mynediad at ddeunydd, cyngor a hyfforddiant gwrthderfysgaeth perthnasol mewn un lle ar gyfer sefydliadau sy'n gweithredu mewn lleoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd. A ydych yn rhagweld y byddech yn cyrchu gwybodaeth gwrthderfysgaeth trwy'r gwasanaeth hwn pe byddai ar gael i chi?**
**Y**/N

**[Os yw 49= N]**
**50. Pam lai?**
Ddim yn berthnasol

**[Os yw 49 = Y]**
**51. Ar gyfer beth fyddech yn fwyaf tebygol o ddefnyddio'r math hwn o wasanaeth (ticiwch bob un sy'n berthnasol)?**
**a. Cael diweddariadau cyffredinol ar sut mae'r risg derfysgaeth yn newid**
**b. Cefnogi gweithgareddau cynllunio busnes**
**c. Deall pa weithgareddau rheoli risg y mae angen i chi eu gwneud**
**d. Cyrchu hyfforddiant CT**
**e. Cysylltu â sefydliadau eraill i drafod gwrthderfysgaeth**
**f. Deall beth i'w wneud ar ôl digwyddiad**
**g. Riportio gweithgareddau terfysgol a amheuir/pryderon**

**52. A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ar sut yr hoffech gyrchu gwybodaeth gwrthderfysgaeth a gweithio gyda phartneriaid lleol ar faterion gwrthderfysgaeth yn y dyfodol?**
Cyfathrebu byr, dwyieithog, heb jargon, sy’n cwmpasu elfennau bychain, yn debyg i’r briffiau 7 munud a ddatblygwyd gan Fyrddau Diogelu yng Nghymru. Sicrhau bod y rhain yn cael eu dosbarthu a’u hyrwyddo’n eang.

**53. Pa rôl ddylai fod gan bartneriaethau busnes lleol (megis Ardaloedd Gwella Busnes, partneriaethau Menter Leol, ac ati) wrth gefnogi sefydliadau a lleoliadau i sicrhau gwell diogelwch?**
Cefnogi a rhannu arferion gorau; gall fod cyfle hefyd i gomisiynu neu gaffael adnoddau a gwasanaethau ar y cyd. Mae yna gwestiwn hefyd ynglŷn â phwy fydd yn atebol yn gyfreithiol pan fo partneriaethau o’r fath yn ymwneud â chyflawni’r Ddyletswydd Diogelu.

**54. Gan weithio ag eraill, beth allai'r Llywodraeth ei wneud orau i gymell gwell arferion diogelwch?**

Gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru fel ei bod yn glir beth yw rôl y weinyddiaeth ddatganoledig a'r amrywiadau mewn deddfwriaeth a fydd yn effeithio ar gyrff cyhoeddus ac eraill y mae'r Ddyletswydd Diogelu'n berthnasol iddynt. Gweithio gyda'r diwydiant yswiriant fel nad effeithir yn negyddol ar y rheiny y mae angen arnynt i gydymffurfio gan yr ystyrir bod risg ychwanegol iddynt, neu'r rheiny nad oes angen cydymffurfio arnynt yn cael eu hystyried yn risg yswiriant ychwanegol gan nad oes angen unrhyw un o'r asesiadau neu'r mesurau lliniaru.

**55. Er mwyn cefnogi darpariaeth cyngor a canllawiau o ansawdd uchel gan weithwyr proffesiynol diogelwch y sector preifat sy'n darparu cyngor ynghylch diogelwch gwrthderfysgaeth, dylai'r Llywodraeth ystyried (ticiwch bopeth sy'n berthnasol)**

**a. Safonau a gefnogir gan y Llywodraeth ar gyfer asesiadau risg a chyngor Gwrthderfysgaeth (CT)**
**b. Cymwysterau / Hyfforddiant achrededig ar gyfer gweithwyr proffesiynol unigol**
c. 'Cynllun contractwyr cymeradwy' a gefnogir gan y Llywodraeth
**d. Rheoleiddio ymgynghorwyr CT**
e. Dim un
f. Arall
g. Nid wyf yn gwybod

**56. Pa gyngor a chymorth fyddai eu hangen ar sefydliadau a lleoliadau sydd o fewn cwmpas Dyletswydd Diogelu?**

Cyllid i ategu datblygiad a'r gallu i gefnogi o fewn meysydd diogelwch cymunedol a gorfodaeth er mwyn hwyluso twf gallu. Mynediad digonol at Gynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth. Asesiadau safonol a gwybodaeth ynglŷn â sut beth yw asesiad da a'r hyn y dylid ei gwmpasu, gan hefyd alluogi hyblygrwydd yr amgylcheddau lleol a'r ystod o ddeddfwriaeth arall a fydd yn dal i fod yn berthnasol hefyd.

**57. O ystyried cymhlethdod mannau cyhoeddus, a'r angen posibl i weithio mewn partneriaeth i gyflawni ffyrdd effeithiol o weithio gan arwain at welliannau mewn diogelwch a pharodrwydd amddiffynnol, pa gefnogaeth ac arbenigedd pwrpasol ychwanegol y gellid eu darparu?**

Defnyddio'r partneriaethau presennol sydd ar waith yn hytrach na datblygu rhywbeth newydd. Darparu gwybodaeth a chyngor heb jargon ac yna caniatáu i'r partneriaethau ddatblygu'r asesiadau risg a mesurau lliniaru a chydweithio ledled ardaloedd daearyddol lle bo fwyaf priodol. Darparu hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel eu bod yn deall y gofynion ychwanegol sydd arnynt hwy a'u partneriaid.

**58. A oes gennych unrhyw gynigion eraill ar yr hyn y gallai'r Llywodraeth ei wneud i gefnogi partneriaid i gyflawni Dyletswydd Diogelu?**

Gweithio’n agos â Llywodraeth Cymru fel bod gwybodaeth ar gael sy’n berthnasol yng Nghymru, nad oes angen ei haddasu. Mae angen cysylltiad clir a chydweithio rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau, Contest Cymru, Byrddau Diogelu a Chyfiawnder Troseddol gan eu bod oll yn hanfodol wrth gyflawni’r Ddyletswydd Diogelu a chadw ein cymunedau’n ddiogel. Mae rhywfaint o bryder y gall unrhyw bartneriaethau newydd, fel Grwpiau Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd, fod ar wahân a bod perygl nad oes ganddynt gysylltiadau â phartneriaethau lleol fel sydd gan y strwythur presennol.